# YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

'Nid da lle gellir gwell'

| CANLLAWIAU DYSGU O ADREF | Tymor yr Hydref 2020 |
|---|---|

Annwyl rieni / gofalwyr,
Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi gyd am eich cydweithrediad a chefnogaeth yn ystod yr hanner tymor hwn. Hoffwn eich hysbysebu am ein gweithdrefnau ysgol os oes angen i chi hunan ynysu neu bod rhaid i ni gau dosbarth neu cau am gyfnod eto.


## HUNAN YNYSU

Os oes rhaid i chi hunan ynysu fel teulu tra'n aros canlyniad prawf neu eich bod wedi bod mewn cyswllt a person sydd wedi cael prawf positif yna mae gwaith ar gael ar ein wefan o dan y tab —PLANT—DOSBARTHIADAU.
https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/dosbarthiadauclass-pages/

Hanner ffordd lawr y dudalen mae pensiliau lliw:

Cliciwch ar bensil lliw dosbarth eich plentyn

Ac yna dewisiwch waith o unrhyw ffeil Dysgu Gartref
Gallwch ei lan lwytho i HWB neu e-bostio'r athro.





## CAU DOSBARTH NEU CAU YSGOL GYFAN

Os ddaw cyfnod clo arall i ddosbarth neu i'r ysgol mae gofyn i ni barhau i addysgu eich plentyn yn rhithiol.

*Mae canllawiau Llywodraeth Cymru bellach yn fwy penodol nag o'r blaen o ran faint o ddysgu y dylai disgyblion gael mynediad iddo ac maent yn nodi y dylai disgyblion nad ydynt yn yr ysgol ddysgu am yr un amser ag y byddent yn dysgu yn yr ysgol, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl.*

Isod rydym yn gosod ein trefn yn Ysgol Parc y Tywyn.




**Y Broses o gadw cyswllt.**

- Fe fydd athrawon yn cynnal cyfarfod "check-in" gyda'i dosbarthiadau drwy *Google Meets* ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw i gadw cysylltiad, egluro gwaith, gwirio unrhyw gwestiynau ac yn gyffredinol i weld sut mae'r plant.

**Amserlen "checkins"**

| Dosbarth | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 3&4 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser | 1:30 | 1:00 | 11:00 | 10:30 | 10:00 | 9:30 | 9:00 |

## Cytundeb Defnydd Derbyniol Ffrydio Gwersi Byw

**Sesiwn Ffrydio Byw – Cytundeb Dysgwr**

Os hoffai eich plentyn gyfranogi mewn sesiynau ffrydio byw yn y dyfodol, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi trafod y Cytundeb Defnydd Derbyniol Ffrydio Gwersi Byw (gweler y ddolen isod - mae hwn hefyd ar gael ar wefan yr ysgol) gyda'ch plentyn a'ch bod yn cytuno y byddant yn cydymffurfio â'r canllaw hwn. Sylwch y gallwch optio allan ar unrhyw adeg.

**Cytundeb*:***
https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/88a3325703854d37b1d37eb8449faf65/polisi-defnydd-derbyniol-ffrydio-gwersi-byw-livestream-acceptable-use-policy.pdf

**Llenwch y ffurflen hon er mwyn awdurdodi i'ch plentyn gymryd rhan mewn unrhyw sesiynau ffrydio byw. Cliciwch ar y ddolen isod:**
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3xoady7-yhIp_mpJV6wNKpUN0hLVk1IQjBXN1FUVUw1VFZVUUY5Vk5aUC4u

- Rydym yn ymwybodol bod rhai ohonych gyda mwy nag un plentyn yn yr ysgol felly rydym wedi ceisio'n gorau i amserlenni y cyfarfodydd hyn yn wahanol.
- Os na fydd eich plentyn yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn yna fe fydd yr athro yn cysylltu gyda chi yn uniongyrchol.
- Mae posib i chi gysylltu gyda'r athro dosbarth drwy ebost. Bydden yn ymateb i'r ebyst yn ystod oriau ysgol ac pan mae'n gyfleus iddyn nhw.

Pennaeth : C Davies
Heol Y Bardd, Porth Tywyn, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn/Tel : (01554) 832101 Ebost/ E-mail : admin@parcytywyn.ysgolccc.org.uk

**Y Broses Addysgu**

- Fe fydd athrawon yn gosod gwaith ar HWB (JiT) i'r Cyfnod Sylfaen **(Derbyn - Blwyddyn 2)**
- https://hwb.gov.wales/

a Google Classrooms i CA2. **(Blwyddyn 3-6)**

- Mae'r athrawon wedi cyflwyno yn barod cyfrwng yr addysgu ac mae'r plant wedi bod yn ymarfer defnyddio'r raglenni yma
- Fe fydd gweithgareddau / gwersi Mathemateg a Iaith yn cael eu gosod yn ddyddiol. Gyda rhai gweithgareddau / tasgau bydd yr athrawon wedi recordio fideo byr er mwyn dangos y dull neu cyflwyno'r gwaith.
- O ran gwaith thema byddem yn gosod bwydlen o weithgareddau a fydd yn cymryd pythefnos i'w gwblhau yn hytrach na gwersi pe-nodol. (Yn debyg i beth roeddem yn gwneud yn y cyfnod clo cyntaf).
- Bydd hefyd disgwyl i'r plant ymarfer bondiau rhif / tablau a dysgu geriau sillafu. Mae J2blast a Spellblast ar gael ar HWB i'r gweithgareddau yma.
- Fe fydd athrawon yn ateb unrhyw gwestiynau neu'n cynnig adborth pan mae hynny yn gyson.

**Canllawiau sut i.....**

- Mae nifer o fideos ar ein wefan yr ysgol o dan tab—PLANT— er mwyn egluro'r broses o fewngofnodi i HWB a Classrooms, sut i lwytho gwaith a lluniau ayyb.

Sut i ddefnyddio rhannau Hwb / How to use different parts of Hwb

- Mewngofnodi i Hwb / Log in to Hwb
- Lanlwytho ffeil ar Hwb / Upload file to Hwb
- Lanlwytho llun neu fideo i Hwb / Upload a picture or video to Hwb
- Anfon e-bost ar Office 365 / Sending an e-mail on Office 365
- Sillafu ar J2Blast / Spelling on J2Blast
- JIT Animeiddio / JIT Animate
- JIT Cangen / JIT Branch
- JIT Crwban / JIT Turtle
- JIT Paent / JIT Paint
- JIT Pictogram / JIT Pictogram
- JIT Siart / JIT Chart
- JIT Ysgrifennu / JIT Write
- Ymateb i sylwadau athro/awes / Responding to a teacher's comments

**Adnoddau**

- Os oes problemau technegol yn rhwystro'ch plentyn rhag cael mynediad at ddeunyddiau plîs cysylltwch gyda'r athrawon drwy e-bost. Bydde unrhyw ddyfais di-wifr yn addas i gael mynediad I'r gwaith ac mae modd cwblhau mwyafrif o'r tasgau ar bapur.
- Os yw'n waith ysgrifenedig, gall ddisgybl gymryd llun ac anfon y gwaith drwy e-bost os nad oes mynediad i gyfrifiadur yn gyfleus.

**Trefn y Dydd**

- Mae'n bwysig cael patrwm penodol o ran gwaith. Trafodwch gyda'ch plentyn o ran faint o amser o'r dydd dylent dreulio ar waith.
- Rhaid cwblhau gwaith llythrennedd (iaith) a rhifedd (mathemateg) yn ddyddiol ac yna dewis amrywiaeth o weithgareddau o'r bwydlen neu'r adnoddau dysgu arlein. Gweler cysylltiadau ar ein wefan.
- Gellid creu amserlen bras o'r dydd o flaen llaw gyda'ch cefnogaeth fel rhiant. Gallwch weld enghraifft posib ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Lles Meddyliol**

- Fe fydd angen sicrhau nad yw eich plentyn yn treulio gormod o amser ar dabled/ffôn/cluniadur pan yn gweithio. Gosodwch ffiniau o ran amser a'r defnydd o DGCh.
- Mae'n bwysig eu bod yn cael cyfnod o awyr iach pob dydd hyd yn oed cyfnod tu allan yn yr ardd.
- Mae'n syniad hefyd amrywio natur y diwrnod gyda gweithgareddau gwahanol.
- Cysylltwch gyda'r athro dosbarth drwy ebost os oes gennych bryder am les eich plentyn.
- Os oes gennych unrhyw bryderon diogelu, yna cysylltwch yn uniongyrchol â Mr Davies neu Miss Roberts.

**Adnoddau Dysgu Arlein Defnyddiol**

- Mae nifer o gysylltiadau i wefanau allanol ar gael ar ei wefan o dan tab— PLANT—DOSBARTHIADAU

Diolch eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod yr amseroedd hyn.

# Amserlen Dysgu Gartref

Isod mae amserlen enghreifftiol efallai yr hoffech ei dilyn...

| | | |
|---|---|---|
| Cyn 9:00yb | Dihuno | Bwyta brecwast, gwneud eich gwely, gwisgo, golchi'ch dannedd |
| 9:00-10:00 | Amser iach / lles | Taith gerdded gyda'r teulu/ Ioga neu sesiwn ffitrwydd Joe Wicks |
| 10:00-11:00 | Amser academaidd | DIM ELECTRONEG! Gweithgareddau rhifedd |
| 11:00-12:00 | Amser creadigol | Lego, Arlunio, Celf a Chrefft, Coginio neu bobi |
| 12:00 | Cinio | |
| 12:30 | Amser helpu | Ee Glanhewch ystafell wely, helpwch i baratoi cinio, glanhau'r ty ac ati |
| 1:00-2:30 | Amser tawel | CANIATÁU ELECTRONEG Darllen, gwrando ar gerddoriaeth, posau, chwilio geiriau, |
| 2:30-4:00 | Amser academaidd | Gweithgareddau llythrennedd / gweithgared-dau bwydlen Gwaith Cartref / Gwaith prosiect |
| 4:00-5:00 | Awyr iach prynhawn | Beiciau, Cerddwch y ci, chwarae / archwilio yn yr ardd |
| 5:00-6:00 | Cinio | |
| 6:00-8:00 | Amser teledu am ddim | Cawod neu faddon a PJ's. Chwarae gêm fwrdd teulu neu wylio ffilm gyda'ch gilydd. |
| 8:00 | Amser gwely | Pob plentyn i'r gwely - darllenwch stori i'ch plentyn |

YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

Nid da lle gellir gwell